Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw

**Heol Gwyrosydd**
**Penlan**
**SA5 7BX**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw |
| Awdurdod lleol | Dinas a Sir Abertawe |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 382 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 276 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 67 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 24.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 39.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 10.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2012 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/11/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol. Mae lles disgyblion a staff yn cael blaenoriaeth uchel gan arweinwyr, ac o ganlyniad, mae perthnasoedd cryf o barch yn bodoli rhwng staff a disgyblion. Mae gwerthoedd 'cyfeillgarwch', 'cyfrifoldeb', 'caredigrwydd', 'cwrteisi' a 'Chymreictod' yn rhan annatod o amgylchedd dysgu'r ysgol. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r gwerthoedd hyn sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu hymddygiad da.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu hanes a diwylliant yr ardal leol. Rhoddir pwyslais cryf ar godi dyheadau ac ysbrydoli'r disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol drwy ddarparu amrywiaeth o brofiadau dysgu ysgogol, er enghraifft wrth gynnal wythnosau gyrfaoedd a thrwy wahodd gwahanol ymwelwyr i'r ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol o'u mannau cychwyn. Mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau diddorol sy'n ennyn eu diddordeb. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith. Ar y cyfan, mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd tu allan. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol na'u gallu creadigol yn yr ardaloedd y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth. Mae'n gosod disgwyliadau uchel i holl aelodau'r ysgol ac yn cynllunio cyfleoedd amrywiol i gefnogi datblygiad proffesiynol y staff. Mae arweinwyr wedi creu gweledigaeth gytûn sy'n dangos balchder yng nghymuned leol yr ysgol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i holl weithgareddau'r ysgol ac yn ymroi'n briodol i gefnogi a herio arweinwyr. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd ffurfiol i lywodraethwyr gael eu cynnwys mewn gweithgareddau i gefnogi prosesau hunanwerthuso'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd i'r disgyblion ieuengaf feithrin a datblygu eu medrau dysgu annibynnol a'u gallu creadigol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth

A2 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith

A3 Cryfhau rôl y llywodraethwyr i'w galluogi i weithredu'n fwy effeithiol fel cyfeillion beirniadol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy'n cyfateb i, neu'n is na, eu cam datblygu, yn enwedig yn y Gymraeg. Dros eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod eang o fedrau. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae medrau iaith a llythrennedd disgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran cynnar, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n addas. Ar draws yr ysgol, gydag anogaeth oedolion, mae llawer yn datblygu eu medrau i gyfathrebu'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio geirfa benodol yn fedrus, er enghraifft mewn gweithgareddau datrys problemau yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ufudd ar gyfraniadau eu cyfoedion a chyfarwyddiadau oedolion, ac yn parchu cyfraniadau eraill yn gyson.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac i ganfod ystyr testun. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn darllen yn glir a gyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Maent yn dangos dealltwriaeth addas o gynnwys testunau gwahanol, ac yn mynegi barn a chywain gwybodaeth am faes arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn ystyrlon.

Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth arbrofi a chreu marciau gydag adnoddau amrywiol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu yn y Gymraeg mewn ffurfiau gwahanol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth greu stori fer am 'Y Môr' gan ddefnyddio ansoddeiriau effeithiol i ddisgrifio cymeriadau diddorol. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth effeithiol o ffurfiau gyda mesur da o gywirdeb. Maent yn amrywio dechrau brawddegau'n llwyddiannus, defnyddio amrywiaeth gynyddol o atalnodi, ac yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r gynulleidfa wrth ysgrifennu mewn ffurfiau diddorol. Er enghraifft, mae disgyblon Blwyddyn 6 yn ysgrifennu areithiau ysbrydoledig i ysgogi tîm rygbi Cymru.

Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu ystod ddefnyddiol o fedrau mathemategol ac yn mwynhau eu cymhwyso mewn heriau rhifedd, gan ymgymryd â gemau cyfrif a gweithgareddau paru yn frwdfrydig, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 2,

mae llawer yn defnyddio pedair rheol rhif yn hyderus, er enghraifft wrth adio a thynnu rhifau dau ddigid. Maent yn datblygu eu medrau mesur yn effeithiol, er enghraifft wrth fesur hylifau gan ddefnyddio'r raddfa gywir yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o ddulliau cyfrifo pen yn fedrus ac yn dyfalbarhau'n dda wrth ddatrys problemau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn talgrynnu eu canlyniadau i'r 10 a'r 100 agosaf wrth gymharu pellter teithio nwyddau i gyrraedd Cymru, yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau trin data yn effeithiol, er enghraifft wrth gymharu a dadansoddi data damweiniau yn y pyllau glo lleol.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran cynnar, er enghraifft mae disgyblion y Derbyn yn casglu a chyflwyno gwybodaeth am drychfilod ar ffurf pictogram yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn cymhwyso eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth greu animeiddiad o Barti Ddu, gan ychwanegu tros lais yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn lled hyderus gan ddefnyddio fformiwlâu'n fedrus i greu taenlen, tra'n cymharu hinsawdd Cymru a'r Arctig.

Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarn at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau'r sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau. Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol, er enghraifft wrth gymhwyso eu medrau mewn gweithgareddau buddiol fel rhan o brosiect treftadaeth gyda disgyblion hynaf yr ysgol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae ethos cyfeillgar a theuluol yn bodoli yn yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn gwrtais a pharchus. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau dod i'r ysgol yn gyson. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan wybod eu bod yn gwrando arnynt. Mae'r disgyblion yn falch o'r cyfleoedd amrywiol maent yn eu derbyn a'u cyflawniadau yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol ac yn gwneud dewisiadau iach yn gyson. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio, a thrwy glybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn deall pwysigrwydd cadw'n iach, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau coginio mewn sesiynau gyda chogyddes adnabyddus. Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel pan fyddent ar-lein, er enghraifft trwy eu gwaith yn ystod wythnos diogelwch y we ac wrth dderbyn cyngor gan yr heddwas lleol.

Mae ymddygiad bron bob disgybl y tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn dda. Maent yn dangos gofal at eu cyfoedion sy'n ategu at y naws deuluol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod i ddysgu mewn amrywiaeth dda o brofiadau dysgu. Maent yn dangos hyder a

gwydnwch buddiol, er enghraifft wrth ddyfalbarhau â gweithgareddau sy’n eu herio i gyflawni’n dda.

Trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd sy’n cael eu hyrwyddo gan yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol a chreadigol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o’u hawliau, er enghraifft yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag cael eu brifo neu eu trin yn wael, wrth iddynt gymryd rhan mewn gwasanaethau torfol yn ystod ‘wythnos gwrth fwlio’.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch bod eu llais yn cael ei werthfawrogi a’i barchu, er enghraifft wrth fynegi barn drwy’r cynghorau, y bocs becso a’r ‘wythnos ysbrydoli’. Trwy hyn, caiff y disgyblion amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr i danio’i dychymyg a meithrin eu brwdfrydedd am weithgareddau y tymor i ddod. Maent yn hyderus bod eu barn a’u syniadau yn cael eu cymryd o ddifri gan arweinwyr, er enghraifft wrth ddatblygu'r ardd yn yr ardal allanol.

Mae bron bob disgybl yn elwa o’r cyfleoedd cyson sy’n cael eu darparu i’w helpu i ddysgu drwy gydol eu bywydau. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau garddio a choginio’n feistrolgar mewn profiadau bywyd go iawn. Yn ogystal, mae athrawon yn hyrwyddo gyrfaoedd amrywiol ac yn darparu sesiynau i gefnogi disgyblion i ddysgu am fyd gwaith yn hynod lwyddiannus mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol a rhieni. Mae’r wythnos gyrfaoedd yn galluogi disgyblion i ddysgu am eu rolau a’u medrau yn dda, ac yn cefnogi eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgymryd â’u tasgau’n gydwybodol gan ganolbwyntio’n dda am gyfnodau penodol. Mae’r dull ‘wyt ti mewn penbleth’ yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn parhau â’u dysgu neu’n chwilio am ddatrysiadau neu atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau. Mae llawer o ddisgyblion yn ymroi i’w tasgau a’u gweithgareddau her yn frwdfrydig sy’n eu hannog i weithio’n annibynnol ac, ar y cyfan, maent yn dyfalbarhau i gwblhau’r gwaith yn gyson. Er hynny, nid yw’r disgyblion yn dewis yn annibynnol sut i gofnodi a chyflwyno eu gwaith yn ddigon cyson yn ystod eu gweithgareddau dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn trafod eu gwaith a dysgu blaenorol yn hyderus; er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn canolbwyntio ar ddatblygu eu gwybodaeth am ramadeg wrth ysgrifennu sgript radio. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen dros eu gwaith ac yn ymateb yn effeithiol i adborth ac yn deall beth yw’r cam nesaf yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn rheolaidd i’w targedau ac yn gwerthfawrogi ac yn parchu cyfraniadau pobl eraill wrth wella eu gwaith.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r staff yn ymgysylltu’n llwyddiannus â holl gymuned yr ysgol a thu hwnt i greu gweledigaeth ar gyfer ei chwricwlwm, sef ‘annog, annibyniaeth, bachu brwdfrydedd a chynnig cyfleoedd.’ Mae athrawon yn datblygu cwricwlwm eang sy’n rhoi profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol. Er enghraifft, mae athrawon yn cynllunio thema yn seiliedig ar hanes diwydiant glo yr ardal i gyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion.

Mae’r egwyddorion sylfaenol wrth wraidd y cwricwlwm wedi’u hymgorffori’n gelfydd fel ‘fflachiadau’ ar gyfer pob dosbarth. Mae athrawon yn ehangu’r cyfleoedd dysgu yn

dda trwy ddefnyddio ymweliadau â'r ardal leol, ymwelwyr i'r ysgol, a chydweithio ag asiantaethau allanol er mwyn cyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, mae staff yn cydweithio â garddwr adnabyddus i ddatblygu gardd yr ysgol ar gyfer plannu a chynaeafu llysiau. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i brofi gweithgareddau cyfoethog wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae staff yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn bwrpasol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cymell disgyblion i ddatblygu eu medrau yn gynyddol. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dysgu i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu holl fedrau ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Er enghraifft, o fewn eu gwaith thema, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd. Ym Mlwyddyn 6 er enghraifft, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fwriadus i ddefnyddio fformiwlâu a throsi graddau wrth amcangyfrif tymheredd yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblon i wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith yn ddigon effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion yn dda iawn. O oedran cynnar, caiff disgyblion eu trochi yn yr iaith yn fedrus mewn amgylchedd cefnogol. Mae athrawon a staff cymorth yn fodelau rôl ieithyddol cryf, ac mae'r gweithgareddau'n adeiladu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol. Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Abertawe a Chymru yn llwyddiannus, er enghraifft trwy astudio dylanwad ffyrdd Rhufeinig o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo balchder disgyblion at Gymru, ac ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r athrawon yn cyflwyno gweithgareddau'n bwrpasol ac ysgogol, gan sicrhau eu bod yn cyflwyno geirfa trwy ddull ailadroddol bwriadus i gefnogi datblygiad ieithyddol disgyblion. Maent yn holi'r disgyblion yn fedrus gan ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau i ddwysáu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion am wahanol feysydd y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae'r amgylchedd dysgu'n ddeniadol ac yn annog disgyblion i ganolbwyntio a dyfalbarhau â'u gwaith. Mae athrawon yn hyrwyddo'r murlun 'Wyt ti mewn penbleth?' i gefnogi dysgwyr i oresgyn problemau yn eu gwaith. At ei gilydd, mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd y tu allan i'r dosbarthiadau. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio'r ardaloedd allanol amrywiol yn gyson i gyfoethogi eu medrau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i'r disgyblion ieuengaf ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol na'u gallu creadigol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Mae athrawon yn darparu adborth effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig i gefnogi disgyblion i symud eu dysgu ymlaen. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a gwerthuso dysgu eu hunain a'u cyfoedion. Mae hyn yn hynod effeithiol wrth gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu dysgu. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn llunio a dewis meini prawf llwyddiant eu hunain i'w helpu i gyflawni'n dda a gwerthuso eu cynnydd mewn gweithgareddau perthnasol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus sy’n creu ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol sy’n cyfrannu’n effeithiol at eu hapusrwydd a’u lles. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau cadarnhaol bron bob disgybl at fywyd yr ysgol. Mae staff yn adnabod y disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol yn dda iawn. Mae arweinwyr a staff wedi datblygu trefniadau effeithiol i sicrhau bod y disgyblion a'u teuluoedd yn cael yr anogaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn yr ysgol. Mae’r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd a lles emosiynol disgyblion yn allweddol i’w gwaith.

Mae darpariaeth effeithiol i gefnogi disgyblion sydd ag ADY. Mae’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cyflawni ei rôl yn dda ac yn cefnogi athrawon yn drylwyr i greu darpariaeth ar gyfer disgyblion sy’n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Mae gan y CADY brosesau trylwyr i adnabod anghenion addysgol a lles disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr sy’n cael ei defnyddio’n effeithiol wrth gynllunio cefnogaeth. Mae’r CADY yn cydweithio’n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn derbyn arweiniad a chyngor arbenigol i gefnogi’r disgyblion. Mae'r ysgol wedi bod yn ddiwyd wrth fynd i'r afael â gofynion diwygio ADY ac wedi paratoi'n dda ar gyfer gweithredu pellach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ADY o’u mannau cychwyn. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn amserol ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd effeithiol. Maent yn darparu rhaglenni cymorth penodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, a lles emosiynol disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sy’n cael cefnogaeth lles neu ddysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Caiff disgyblion ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu medrau arwain ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau ysgol gyfan yn effeithiol, er enghraifft trwy fod yn aelodau o’r cynghorau ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi’n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau, ac i ystyried safbwyntiau eraill.

Mae agweddau ysbrydol a moesol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo’n rheolaidd gan staff drwy wasanaethau addoli ar y cyd sy’n cynnig cyfleoedd bwriadus i’w cefnogi i ddysgu am faterion sy’n ymwneud â chredoau amrywiol a'u gwerthoedd eu hunain. Cynhelir gwasanaethau cyson a darperir cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt. Mae hawliau plant yn rhan gyson o’r gwasanaethau a gweithgareddau’r dosbarth. Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau dosbarth yn fwriadus.

Un o gryfderau’r ysgol yw sut mae staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd hynod fuddiol i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i’r gymuned leol drwy ymgysylltu â’r celfyddydau creadigol yn effeithiol, er enghraifft drwy gydweithio ag arlunydd lleol. Mae staff yn helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â gwerthoedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn fwriadus. Mae hyn yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd a gwaith y disgyblion yn

effeithiol. Mae diwylliant cynhwysol amlwg o fewn yr ysgol gyda phwyslais cryf yn cael ei osod ar barch.

Mae gan yr ysgol systemau priodol ar gyfer monitro prydlondeb a phresenoldeb disgyblion. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau lles er mwyn hyrwyddo presenoldeb da. Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder. Mae'r drefn ar gyfer adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn cydweithio ag asiantaethau allanol pan fo hynny'n briodol.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth eglur sy'n seiliedig ar baratoi disgyblion i fod yn ddinasyddion annibynnol, brwdfrydig sy'n manteisio ar bob cyfle a roddir iddynt mewn amgylchedd diogel. Caiff ei chefnogi'n fedrus gan y dirprwy a'r arweinwyr canol i rannu'r weledigaeth hon yn effeithiol ymysg y staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod lles y staff yn ganolog i'w gwaith dyddiol. O ganlyniad, mae ethos gofalgar, gweithgar a Chymreig yn treiddio trwy'r ysgol. Mae'r arwyddair, sef 'O'r fesen derwen a dyf,' wedi'i wreiddio'n llwyddiannus yng ngwaith a naws gynhwysol yr ysgol, ble mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae ethos o weithio fel tîm cynhyrchiol ymysg athrawon a chynorthwywyr yn elfen nodedig o'r ysgol. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cydweithio'n ddiwyd er mwyn darparu profiadau dysgu ysgogol a difyr sy'n diwallu anghenion y disgyblion. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a chynhelir sesiynau staff rheolaidd er mwyn gweithredu a chyflawni'r blaenoriaethau cytûn. Mae gan bob un o'r athrawon gyfrifoldeb am faes Cwricwlwm i Gymru neu agwedd benodol ar waith yr ysgol, ac mae'r ysgol yn mynd i'r afael â rhan fwyaf o'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn gadarn. Mae'r holl staff yn dangos agweddau ac ymddygiadau proffesiynol yn gyson ac yn gosod esiampl dda i ddisgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae pwyslais cryf yn bodoli ar ddatblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ymysg disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi ennill y brif wobr mewn cystadleuaeth treftadaeth genedlaethol wrth gynnal prosiect i ddyfnhau gwybodaeth y disgyblion am eu hardal leol. O ganlyniad, mae disgyblion yn hyderus wrth sgwrsio yn y Gymraeg, yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn i'r gymuned ehangach, ac yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau pwrpasol ar gyfer gwerthuso safonau ac addysgu gan gynnwys teithiau dysgu a chraffu ar lyfrau disgyblion. Mae'r pennaeth, ar y cyd â'r llywodraethwyr, yn monitro'r gyllideb yn ofalus gan sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i ddarparu ymyriadau penodol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cynllunio sesiynau anogaeth gwerthfawr i ddatblygu medrau cymdeithasol a lles emosiynol disgyblion yn yr 'Ystafell Enfys' a'r 'Cwtsh Clyd.'

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol, ac maent yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda iawn. Mae'r llywodraethwyr yn deall blaenoriaethau gwella'r ysgol a'r rhesymau y tu ôl iddynt, ac yn arddangos adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn cynorthwyo arweinwyr wrth drafod ac ymateb i weithgareddau gwella'r ysgol yn briodol, er enghraifft trwy wahodd disgyblion i'r llyfrgell leol i geisio ennyn eu diddordeb a'u mwynhad mewn darllen. O ganlyniad, mae cynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n gwneud defnydd rheolaidd o'r llyfrgell yn ystod eu hamser hamdden. Er hyn, nid yw arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd digon ffurfiol i lywodraethwyr gael eu cynnwys mewn gweithgareddau i gefnogi prosesau hunanwerthuso'r ysgol.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant diogelu effeithiol, lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach; er enghraifft, mae ffynhonnau dŵr ar gael a chegin bwrpasol i gyfoethogi'r ddarpariaeth a phrofiadau'r disgyblion pan maent yn coginio prydau iachus.

Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Mae pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Maent yn rhannu syniadau ac arferion gorau gyda'i gilydd yn bwrpasol ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ar gyfer perfformiad y staff a hi ei hun. Mae gan bob aelod o staff dargedau gwella sy'n cysylltu'n agos â'r cynllun gwella a'u blaenoriaethau datblygiad proffesiynol. O ganlyniad, mae hyn yn sicrhau ymagwedd gydweithredol at wella a chodi dyheadau staff i ystyried y camau nesaf yn eu gyrfaoedd.

Mae arweinwyr wedi sefydlu perthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn darparu cyfleoedd achlysurol i rieni ymweld â'r ysgol ac i ymgysylltu â dysgu eu plentyn. Er enghraifft, fel rhan o sesiynau dysgu 'Yr Awr Anturus' sy'n datblygu medrau entrepreneuraidd y disgyblion hynaf, mae rhieni'n cael cyfle i gydweithio â'u plentyn a phrynu eu cynnyrch yn ystod y bore agored.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2024